CASCADE

# gwneud ceisiadau

GWNEUD DEWISIADAU

## Awgrymiadau Defnyddiol: Dewis prifysgol

Gyda dros 150 o brifysgolion yn y DU yn unig, ac wyth yma yng Nghymru, sut mae dechrau arni, hyd yn oed? Dyma rai cwestiynau i'ch rhoi ar ben ffordd.

- **Ydw i eisiau symud i ffwrdd?** Neu oes gen i ffrindiau, teulu neu ymrwymiadau gwaith y mae angen i mi fod yn agos atyn nhw?
- **Tref neu Gampws?** Ydw i eisiau bod mewn dinas? Neu a fyddai prifysgol campws lle mae popeth ar un safle yn fwy cyfleus?
- **Cymru? Neu ymhellach i ffwrdd?** Os oes gen i hawl i gael cymorth awdurdod lleol, a fydd hyn yn dal yn berthnasol os byddaf yn astudio y tu allan i Gymru? (Bydd, fel arfer!)
- **Pwy arall sydd wedi bod yno?** Oes gennych chi unrhyw frodyr a chwiorydd neu ffrindiau wedi cael profiad da mewn prifysgol benodol?
- **Oes unrhyw hobïau yr hoffwn ddal ati i'w gwneud neu eu cychwyn?** Pa chwaraeon, cymdeithasau ac atyniadau y mae gwahanol brifysgolion a dinasoedd yn eu cynnig?

## Llinell amser eich cais prifysgol



## Awgrymiadau Defnyddiol:
## Dewis pwnc

Dychmygwch bwnc, mae'n debygol bod cwrs prifysgol yn gysylltiedig ag ef. Dydy hyn ddim yn golygu pynciau rydych chi'n gwybod amdanyn nhw o'r ysgol neu'r coleg yn unig, neu gyrsiau sy'n arwain at broffesiynau penodol. Gyda chymaint o ddewis, sut rydych chi'n penderfynu? Beth am feddwl am...




- **Oes rhywbeth a astudiais yn yr ysgol neu goleg** yr oeddwn yn ei fwynhau'n fawr, neu eisiau dysgu rhagor amdano?

- **Oes swydd benodol rydw i eisiau ei gwneud** sy'n golygu bod angen i mi wneud cwrs penodol? (Fel meddygaeth, nyrsio neu'r gyfraith)

- **Oes rhywbeth rwy'n wirioneddol yn poeni amdano** sy'n gysylltiedig â gradd? (Fel yr amgylchedd, neu wleidyddiaeth, neu gyfiawnder cymdeithasol)

- **Ydw i eisiau gwneud rhywbeth creadigol?** Mae cymaint o gyrsiau sy'n ymwneud â chelf a dylunio.

Mae rhagor o wybodaeth a dolenni defnyddiol ar wefan CLASS Cymru

## Awgrymiadau Defnyddiol:
## Deall cyllid

**Y peth cyntaf i'w gofio yw hyn: er ei bod hi'n costio arian i fynd i'r brifysgol, dydych chi ddim yn talu ymlaen llaw.** Mae'r rhan fwyaf o bobl yn talu am eu ffioedd prifysgol a'u costau byw fel llety trwy gyfuniad o fenthyciadau (sy'n cael eu talu'n ôl pan fyddwch wedi graddio ac yn ennill swm penodol o arian) ac ysgoloriaethau/ bwrsariaethau neu grantiau (nad oes angen i chi eu talu'n ôl). Ac os ydych chi â phrofiad o ofal, mae gwahanol bethau sy'n gallu helpu:

- **Mae gan y rhai sy'n gadael gofal hawl i gymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol.** Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi hawl i'r cymorth hwn ac nad ydych chi'n ei gael, mae cyswllt dynodedig prifysgol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn gallu eich helpu chi

- **Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnig bwrsariaethau i'r rhai sy'n gadael gofal** – mae hyn yn golygu arian y gallwch ei ddefnyddio i dalu am ffioedd a chostau byw heb orfod ei dalu'n ôl. Ewch i propel.org i weld beth mae prifysgolion yn ei gynnig!

- **Os ydych chi â phrofiad o ofal ond nad ydych chi yn y categori gadael gofal,** bydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnig cymorth ariannol ar ffurf bwrsariaethau

- **Hefyd, mae llawer o brifysgolion yn cynnig y cymorth hwn i fyfyrwyr nad ydyn nhw wedi cael profiad o ofal** ond sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd, naill ai cyn neu yn ystod eu hastudiaethau

- **Hefyd, mae gan brifysgolion gronfeydd caledi.** Mae unrhyw fyfyriwr yn gallu gwneud cais am arian o'r rhain os yw'n cael trafferthion ariannol oherwydd ei amgylchiadau

- **Ewch i propel.org i gael rhagor o wybodaeth am gynigion prifysgolion unigol,** a gwiriwch wefannau prifysgolion am gyngor ariannol i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal.

- **Ewch i** https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ a chwiliwch am 'fyfyrwyr annibynnol ac sydd wedi ymddieithrio'